OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1226 (Cy.84)

TAI, CYMRU

Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*26 Ebrill 2005*
Yn dod i rym - -	*30 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 83(2) a (7) o Ddeddf Tai 1985(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru'n unig.

Diwygiad: hysbysiad i'w gyflwyno cyn achos am orchymyn israddio

2.—(1) Mae Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Hysbysiadau) 1987(**2**) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 2, ychwaneger —

> "**3.** The notice to be served on a secure tenant under section 83 of the Housing Act 1985 before the court can entertain proceedings for a demotion order under section 82A(**3**) of that Act, shall be in the form specified in Part III of the Schedule to these Regulations, or in a form substantially to the same effect."

(3) Yn yr Atodlen, ar ôl Rhan II ychwaneger —

(**1**) 1985 p.68. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Tai 1985 (Deddf 1985), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672, y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn gymwys i'r Rheoliadau hyn). Amnewidiwyd adran 83 o Ddeddf 1985 gan adran 147 o Ddeddf Tai 1996 (p.52). Yn adran 83, diwygir is-adrannau (1) a (2), a mewnosodir is-adran (4A), gan adran 14(3) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (p. 38).

(**2**) O.S. 1987/755 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/71 ac O.S. 1997/377.

(**3**) Mewnosodwyd adran 82A gan adran 14(2) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (p.38).

"PART III

Notice before proceedings for a demotion order

Housing Act 1985, s83

This Notice is the first step towards the termination of your secure tenancy and its replacement with a demoted tenancy. You should read it very carefully.

- *If you need advice about this Notice, and what you should do about it, take it as quickly as possible to a Citizen's Advice Bureau, a Housing Aid Centre, or a Law Centre, or to a Solicitor*

1. To.. .. .. .